*This document is available in English.*

**Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Stuart Millington** |
| Swyddog Cyswllt | **Brian Mottershead, Swyddog Diogelu Data** |
| Pwnc | **Adroddiad Sicrwydd Rhyddid Gwybodaeth** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi sicrwydd i'r Panel Gweithredol (y Panel) bod proses y Gwasanaeth ar gyfer ymdrin â cheisiadau am wybodaeth a gyflwynir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gadarn ac yn lleihau'r risg o dorri rheolau data sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol.

**ARGYMHELLIAD**

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**CEFNDIR**

3 Cafwyd nifer o adroddiadau'n ddiweddar am achosion sylweddol a difrifol o dorri rheolau data personol gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys dau lle cafodd data personol, gan gynnwys data 'sensitif' categori arbennig, eu rhyddhau'n amhriodol fel rhan o ymatebion i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

4 Dyma'r achosion dan sylw:

(i) Heddluoedd Norfolk a Suffolk yn cynnwys data crai yn ymwneud â dioddefwyr, tystion a phobl a ddrwgdybir, yn ogystal â disgrifiadau o droseddau, wrth ymateb i nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth am ystadegau trosedd;

(ii) Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) yn rhyddhau data a oedd yn cynnwys cyfenw, blaenlythrennau, rheng/graddfa, rôl a lleoliad yr holl swyddogion a staff sy'n gwasanaethu, wrth ymateb i gais a gyflwynwyd drwy wefan WhatDoTheyKnow (whatdotheyknow.com) ac a oedd ar gael i'w gweld ar y safle am hyd at dair awr cyn iddo gael ei dynnu i lawr.

5 Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan ddefnyddio'r broses ganlynol :

(i) Mae dilysrwydd y cais yn cael ei wirio gan y Swyddog Diogelu Data ac, os yw'n ddilys, mae'n cael ei gofnodi yn y Gofrestr Rhyddid Gwybodaeth, ei gydnabod, a'i anfon at yr adran(nau) perthnasol i ddarparu'r data. Efallai y bydd yr adran(nau) sy'n ei dderbyn, ar yr adeg hon, yn gofyn i'r Swyddog Diogelu Data ofyn am eglurhad gan y sawl sy'n gwneud cais am y wybodaeth sydd ei hangen, ac os felly bydd y 'cloc' 20 diwrnod gwaith yn cael ei oedi hyd nes y ceir yr eglurhad. Os na cheir eglurhad o fewn tri mis, caiff y cais ei ganslo.

(ii) Mae'r Swyddog Diogelu Data yn derbyn ymateb gan yr adran(nau) perthnasol, yn gwirio bod y data a ddarparwyd yn ateb y cwestiynau a gyflwynwyd ac nad oes dim o'r data yn cynnwys gwybodaeth bersonol adnabyddadwy, ac yn cadarnhau a oes unrhyw eithriadau y dylid eu cymhwyso i'r data hynny. Yr eithriadau a ddefnyddir amlaf mewn perthynas ag ymatebion Rhyddid Gwybodaeth Gwasanaeth yw:

i. Adran 21 – gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hygyrch
ii. Adran 24 – diogelwch cenedlaethol
iii. Adran 38 – peryglu iechyd a diogelwch
iv. Adran 40(2) – gwybodaeth bersonol
v. Adran 43(2) – rhagfarn i fuddiannau masnachol

Pwysig: Mae Adran 12 o'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n achlysurol i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbynnir gan y Gwasanaeth. Mae'r Adran hon yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus wrthod ceisiadau am wybodaeth pan fyddai'r gost o ymdrin â hwy'n uwch na'r terfyn priodol, sef £450 ar gyfer llywodraeth leol. Mae hyn yn cynrychioli'r gost amcangyfrifedig o un person yn treulio 2.5 diwrnod gwaith (18 awr) yn penderfynu a yw'r adran yn cadw'r wybodaeth, dod o hyd i, adalw ac echdynnu'r wybodaeth.

(iii) Caiff ymateb ei baratoi gan y Swyddog Diogelu Data a'i anfon ymlaen at y Prif Swyddog perthnasol i'w gymeradwyo. Unwaith y caiff ei gymeradwyo anfonir yr ymateb at yr ymgeisydd.

5 Drwy gydol y broses efallai y bydd trafodaethau rhwng y Swyddog Diogelu Data a'r adran(nau) darparu ynghylch pa ddata i'w gynnwys, er enghraifft cynnwys data sy'n ymwneud â phrosesau disgyblu, lle bydd rhifau'n cael eu hadrodd mewn bandiau (h.y. 0 i 5, 6 i 10, 11 i 15) yn hytrach na rhifau penodol, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o unigolion yn cael eu hadnabod. Byddai'r un broses fandio hefyd yn cael ei chymhwyso i wybodaeth am gyflogau staff.

6 Mae’r Swyddog Diogelu Data yn ymwybodol bod rhai awdurdodau cyhoeddus mawr yn dirprwyo’r ymatebion Rhyddid Gwybodaeth i adrannau unigol, a thrwy hynny mae angen sicrhau bod gan staff yn yr adrannau hynny lefel ddigonol o wybodaeth i gydnabod y posibilrwydd o dorri rheolau data cyn iddo ddigwydd. Nid yw hyn yn wir yn y Gwasanaeth, gan fod pob cais Rhyddid Gwybodaeth yn mynd trwy'r Swyddog Diogelu Data.

7 Mae’r Swyddog Diogelu Data yn falch o allu hysbysu’r Aelodau na adroddwyd am unrhyw achosion o dorri rheolau data GTAGC hyd yma o ganlyniad i ryddhau data personol yn amhriodol wrth ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim |
| Cyllideb | Dim |
| Cyfreithiol | Camau rheoleiddio posibl gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth pe bai achos o dorri rheolau data personol yn digwydd sy’n debygol o arwain at risg uchel y bydd yn cael effaith andwyol ar hawliau a rhyddid unigolion. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Dim |